



Hanfodion Polisi Amgylcheddol: Adfer Natur

Bioamrywiaeth yw un o asedau mwyaf Cymru – o'r ystlumod yn ein coedwigoedd i'r adar môr sy'n bridio ar ein clogwyni a'n hynysoedd; o'r morloi a'r dolffiniaid sy'n nofio ymhlith ein dolydd morwellt a'n môr-wyntyllau pinc i rostiroedd grugog a gorgorsydd yr ucheldir.

Mae Cymru'n gartref i boblogaethau o bwys byd-eang o adar môr a choedwigoedd glaw tymherus. Ond dim ond 2.1% o dir a dŵr Cymru sydd wedi'i warchod ac mewn cyflwr da, ac mae un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu.

Er gwaethaf dirywiad difrifol o ran bioamrywiaeth, yn ddiweddar canfu Archwilio Cymru '(nad) yw'r argyfwng natur wedi bod yn flaenoriaeth ddigon uchel'. Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r dirywiad o ran bioamrywiaeth, ac mae colli bywyd gwyllt yn newyddion drwg o ran cynhyrchu bwyd, o ran ein heconomi, ac o ran iechyd a llesiant ein cymunedau. Canfu Adroddiad Diogeledd Bwyd diweddar fod y newid yn yr hinsawdd, colli natur, a diffyg diogeledd dŵr yn peri "risgiau sylweddol" i ddiogeledd bwyd.

Mae amser yn brin. Mae angen gweithredu yn ystod tymor y Senedd hon i atal colli bioamrywiaeth ac i roi natur Cymru ar y trywydd iawn i'w adfer.





Pa offer sydd yn nwylo'r Senedd?

- Mae Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru integreiddio'r Egwyddorion Amgylcheddol ar draws y Llywodraeth, sefydlu corff gwarchod amgylcheddol, Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC), a phennu targedau bioamrywiaeth sy'n rhwymo'n gyfreithiol.
- Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Cyhoeddus i gynnal ac i wella bioamrywiaeth.
- Cytunodd Cymru i warchod 30% o'i thiroedd, ei dyfroedd a'i moroedd erbyn 2030 (30 erbyn 30) o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Ond, ar hyn o bryd, mae ein rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig ymhell o fodloni'r targed. O wella ansawdd a hyd a lled yr ardaloedd gwarchodedig – yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru – bydd ein cymunedau, ein heconomi a'n hamgylchedd naturiol ar eu hennill.
- Ceir cysylltiad annatod rhwng dyfodol natur a dyfodol ffermio. Rhaid i bolisïau amaethyddol, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ddarparu'r drefn reoleiddio, yr offer, a'r cymhellion i gynorthwyo ffermwyr i gyfrannu at adfer natur.
- Mae cyfleoedd yn codi mewn meysydd polisi, gan gynnwys cynllunio, tai, dŵr a seilwaith, i osgoi achosi niwed, i roi datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar waith, ac i wireddu manteision o ran bioamrywiaeth.
- Mae cyfleoedd yn codi mewn meysydd polisi, gan gynnwys cynllunio, tai, dŵr a seilwaith, i osgoi achosi niwed, i roi datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ar waith, ac i wireddu manteision o ran bioamrywiaeth.
- Mae Cymru'n cymryd camau tuag at ailgyflwyno rhywogaethau allweddol, megis afancod ac eryrod môr. Bydd fframweithiau rheoli effeithiol a dull strategol o weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol i sicrhau bod y camau i ailgyflwyno'r rhywogaethau hyn yn llwyddiannus ac yn gwireddu manteision i gymunedau lleol.
- Mae Cymru wedi camu tuag at ddefnyddio cyllid preifat i adfer natur, drwy bennu Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy. Yn 2025, canfu Cyswllt Amgylchedd Cymru fod ar natur angen mwy o arian a buddsoddiad. Mae astudiaethau'n dangos pwysigrwydd economaidd natur, ac mae astudiaethau achos (megis partneriaeth Aviva a'r Ymddiriedolaethau Natur a phrosiect masnachu cyfalaf naturiol Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg) yn dangos sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i lunio modelau cyllid natur ar fyrder.








Beth y gall ASau ei wneud i gynorthwyo i wireddu targedau 2030?

- Cynnwys bioamrywiaeth ym mhob sgwrs. Mae natur yn sylfaen i'n bywydau, ac mae ei hintegreiddio ar draws Llywodraeth Cymru'n hanfodol o ran ein hiechyd, ein llesiant, twristiaeth, ffermio, gwydnwch yn wyneb yn newid yn yr hinsawdd, ac adfer bioamrywiaeth.
- Mynnu bod ein tiroedd, ein dyfroedd a'n moroedd yn cael eu rheoli'n well, eu gwarchod, a'u hadfer, er mwyn i natur allu cyd-fodoli â chymunedau Cymru, drwy wneud y pethau a ganlyn:
  - Gwella safleoedd gwarchodedig er mwyn iddynt fod mewn cyflwr da, a dynodi safleoedd newydd.
  - Parhau â'r rhaglen Naturfa, gan sicrhau bod mwy o ardaloedd yn cael eu dynodi a'u bod yn cael eu rheoli'n dda.
  - Gwella'r modd y caiff Parciau Cenedlaethol eu rheoli er mwyn adfer natur, a mynd ati i'w hehangu ymhellach i ddatblygu Tirweddau Cenedlaethol a reolir er budd natur.
- Cefnogi gwaith i lunio targedau bioamrywiaeth, a'r camau i'w gwireddu, ar fyrder erbyn 2028. Bydd targedau bioamrywiaeth sy'n rhwymo'n gyfreithiol yn sbarduno gweithredu ac yn sicrhau bod Gweinidogion yn atebol yn y dyfodol am wella cyflwr natur.
- Sicrhau bod y polisi ailgyflwyno rhywogaethau, a'r gwaith o'i reoli, yn parhau ar fyrder.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector i sicrhau bod adfer natur yn cael ei ariannu'n gyhoeddus ac yn breifat a bod llwybrau buddsoddi newydd yn cael eu sefydlu, gan adeiladu ar ffrydiau gwaith sy'n dod i'r amlwg.





Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn rhwydwaith o Sefydliadau Anllywodraethol ym meysydd yr amgylchedd, cefn gwlad a threftadaeth yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw amgylchedd ffyniannus yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r papur hwn yn cynrychioli barn gydsyniol grŵp o aelodau'r Cyswllt sy'n gweithio yn y maes arbenigol hwn. Fe all aelodau hefyd gynhyrchu gwybodaeth eu hunain er mwyn codi materion mwy manwl sy'n bwysig i'w corff arbennig nhw.

Swydda Caerdydd
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Awyrlas: @waleslink.bsky.social

Cardiff Office
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Bluesky: @waleslink.bsky.social

www.waleslink.org

Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Cyfarwyddwr | Director: Karen Whitfield
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675